

9 Medi 2021

Annwyl Bennaeth y Ganolfan

Cymwys ar gyfer y dyfodol: ail-ddychmygu cymwysterau ar gyfer y cwricwlwm newydd

Fis nesaf byddwn yn cadarnhau canlyniadau ein hymgyngoriad diweddar ar y brif ystod o bynciau a chymwysterau TGAU a wnaed ar gyfer Cymru a fydd ar gael i gefnogi'r cwricwlwm newydd. Bydd cyfle i fynychu gweminar ategol a bydd mwy o wybodaeth yn dilyn yn fuan.

Yn dilyn [llythyr](#) Philip Blaker, dyddiedig 15 Gorffennaf 2021, rydym yn canolbwyntio eleni ar weithio gyda rhanddeiliaid i ail-ddychmygu cenedlaeth gwbl newydd o gymwysterau TGAU a wnaed ar gyfer Cymru fel rhan o gynig cymwysterau mwy pwrpasol a chynhwysol ar gyfer pobl ifanc 14 i 16 oed. I wneud hynny byddwn yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i ail-feddlw am nodweddion allweddol TGAU yn y dyfodol a'r cymhwyster ehangach sydd ar gael.

Rydym am i athrawon a gweithwyr addysgol proffesiynol ein helpu i ddatblygu'r cymwysterau newydd ar y cyd, ac rydym yn awyddus i recriwtio athrawon i'n helpu i wneud hyn. Bydd hon yn broses ddeinamig i'n helpu i archwilio ac ail-ddychmygu'r berthynas rhwng y cwricwlwm, arferion addysgu ac asesu.

Mae dwy ffordd y gall aelod o staff addysgu gymryd rhan. Gallent wneud cais i gefnogi gweithgor ffocws wrth ddatblygu syniadau ar gyfer llunio cymwysterau unigol. Neu gallent ymuno â grŵp rhanddeiliaid ehangach i gynig adborth mewn ymateb i gwestiynau, syniadau a chynigion sy'n dod i'r amlwg sy'n ymwneud â Maes Dysgu a Phrofiad penodol.

www.qualificationswales.org



Rôl ymarferwyr pwnc

Rydym yn chwilio am ymarferwyr pwnc o bob rhan o Gymru sydd â phrofiad o addysgu a chyflwyno cymwysterau TGAU mewn o leiaf un maes pwnc. Athrawon a darlithwyr fydd y rhain sydd â diddordeb brwd yn y Cwricwlwm newydd a'i oblygiadau o ran llunio, cyflwyno ac asesu cymwysterau'r dyfodol.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn ymuno â gweithgor â ffocws fydd yn cynnwys ymarferwyr eraill, arbenigwyr pwnc ac asesu, a chydweithwyr o Cymwysterau Cymru a CBAC. Rôl pob grŵp fydd llunio cynigion ar gyfer cynnwys lefel uchel ac asesu cymwysterau TGAU newydd o fewn maes pwnc drwy ofyn cwestiynau a syniadau i'r grŵp MDPH ehangach.

Anogir ymarferwyr i drafod syniadau a chynigion sy'n dod i'r amlwg gyda chydweithwyr yn eu canolfannau a'u rhwydweithiau proffesiynol ehangach ac i rannu adborth gyda'r gweithgor.

Ymrwymiad amser i ymarferwyr pwnc

Mae ymrwymiad amser yn gysylltiedig â chymryd rôl fel ymarferydd pwnc. Gweler y [briff](#) am mwy o wybodaeth.

Rydym yn gofyn i bob ymarferydd fod ar gael am 20 diwrnod rhwng 1 Tachwedd 2021 a 27 Mai 2022. Mae hyn yn cyfateb i tua 5 diwrnod yr hanner tymor yn ystod y cyfnod hwn. Bydd Cymwysterau Cymru yn talu ffi rhyddhau am ddiwrnod i ganolfannau i wneud iawn am y cyfraniad hwn o amser.

Bydd rhywfaint o hyblygrwydd i ymarferwyr a'u canolfannau reoli'r ymrwymiad amser sydd ei angen.

Rôl grwpiau rhwydwaith MDPH

Rydym yn disgwyl i aelodau roi adborth ar gynigion bob pythefnos yn ystod y tymor. Y disgwyl yw y bydd aelodau'n rhoi adborth o leiaf ddwywaith o bob tri chyfle. Gweler y [briff](#) am mwy o wybodaeth.

Rôl wirfoddol, a gynhelir yn ystod amser yr unigolyn ei hun. Gall aelodau fod fel unigolion, neu gynrychioli corff.

Y Broses Ymgeisio

1. Athrawon i lenwi [ffurflen gais](#) fer cyn y dyddiad cau, sef dydd Iau 30 Medi (Rhwydwaith MDPH) dydd Mawrth 5 Hydref 2021 (ymarferwyr pwnc).

2. Bydd angen i athrawon sydd am fod yn rhan o [weithgor pwnc](#) gael cadarnhad ysgrifenedig gan yr ysgol eu bod yn cefnogi'r cais ac yn deall yr ymrwymiad amser sydd ei angen rhwng 1 Tachwedd 2021 a 27 Mai 2022.

Tâl

Oherwydd yr amser a neilltuir ar gyfer rhyddhau athrawon, sy'n debygol o fod yn ymrwymiad o 20 diwrnod yn ystod y flwyddyn academiaidd, telir ffi o £189 y dydd i'r ysgol ar gyfer pob ymarferydd pwnc. Nid oes tâl am rolau MDPH.

Rydym yn cydnabod y pwysau parhaus mewn ysgolion ac yn croesawu eich cefnogaeth i'r cam nesaf hwn. Byddwn yn cynnal sesiwn i Benaethiaid Canolfannau ar y diwrnodau canlynol i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych:

- [Sesiwn Saesneg: 16 Medi 9:00-10:00am](#)
- [Sesiwn Gymraeg: 17 Medi 9:00-10:00am](#)

Os hoffech sgwrs am y gwaith yma, mae croeso i chi gysylltu gyda ni ar diwygio@cymwysteraucymru.org.

Mae'r cwricwlwm newydd yn cynnig cyfle gwerthfawr i ailddychmygu sut y gellir llunio cymwysterau ac asesiadau i wella profiadau a chanlyniadau dysgwyr. Edrychwn ymlaen at weithio'n agos gyda chi a'ch cydweithwyr yn ystod y misoedd nesaf i wneud y mwyaf o'r cyfle hwn.

Yn gywir



Emyr George

Cyfarwyddwr Polisi a Diwygio Cymwysterau